COFNODION CYARFOD CYDBWYLLGOR AMLOSGFA LLANGRALLO A GYNHALIWYD O BELL – DRWY GYFRWNG TIMAU MICROSOFT DDYDD GWENER, 3 GORFFENNAF 2026 AM 14:00

Presennol

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | E L P Caparros | H Griffiths | S J Griffiths |
| G John | C Stallard | B Stephens | J Turner |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Y Cyng John Spanswick
Y Cyng Paul Davies

Datganiad o Fuddiant
Dim

Swyddogion

| | |
|---|---|
| Stephen Griffiths | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Nimi Chandrasena | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanna Hamilton | Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth |
| Dean Jones | Cyfrifydd - Ariannol |
| Martin Morgan | Pennaeth Gweithrediadau Dros dro – Gwasanaethau Cymunedol |

## 81. Ethol Cadeirydd (o blith yr aelodau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr)

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Penodwyd y Cynghorydd Eugene Caparros yn Gadeirydd ar gyfer 2026-27. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 03/07/26 |

## 82. Ethol Is-gadeirydd (o blith yr aelodau o Gyngor Rhondda Cynon Taf)

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Penodwyd y Cynghorydd Barry Stephens yn Is-gadeirydd ar gyfer 2026-27.<br>. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 03/07/26 |

## 85. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Cydbwyllgor Amlosgfa Llangrallo a gynhaliwyd ar y 6$^{ed}$ o Fawrth 2026 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 03/07/26 |

## 86. Adolygiad Blynyddol o Amcanion Cynllun Busnes 2025-26

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi gwybod i'r Cyd-bwyllgor am berfformiad Amlosgfa Llangrallo yn ystod |

| | |
|---|---|
| | 2025-26.<br><br>Mae Cymal 3.2 o 'Memorandwm Cytundeb' ar y cyd yr Awdurdodau sy'n ymwneud â Chyd-bwyllgor Amlosgfa Llangrallo yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgor dderbyn adroddiad yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn adolygu perfformiad yn erbyn y Cynllun Busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol.<br><br>Nodai Atodiad A i'r adroddiad berfformiad Amlosgfa Llangrallo mewn perthynas â:<br><br>• Nifer yr amlosgiadau.<br>• Safonau gwasanaeth<br>• Gwariant a gynlluniwyd<br>• Cyflawni amcanion y Cynllun Busnes<br><br>Mewn ymateb i’r adroddiad, bu’r aelodau yn trafod nifer o faterion:<br><br>• Llongyfarchwyd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth a'i thîm am wasanaeth a pherfformiad rhagorol Amlosgfa Llangrallo.<br>• Nifer yr amlosgiadau 'pur' yr wythnos. Dywedodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth y byddai'n rhoi'r union niferoedd i'r aelodau.<br>• Uchafswm nifer yr amlosgiadau y gellid eu trefnu. Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth mai'r uchafswm oedd 17 y dydd, ond eu bod yn ceisio peidio â threfnu mwy na 10.<br>• Yr anghysondeb bychan yn y ffigurau ar gyfer graddio argaeledd amseroedd gwasanaeth (Ebrill i Fehefin 2025), lle roedd y ffigurau canrannol yn rhoi cyfanswm o 103%.<br>• Y rhesymau dros y gostyngiad bychan yn y sgôr Rhagorol (87.5%) ar gyfer y pedwerydd chwarter, o'i gymharu â'r tri blaenorol.<br>• Y rhesymau dros yr oedi wrth gwblhau'r gwaith tir i wella llinellau gweledwdd wrth gyffordd yr allanfa.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Argymhellwyd bod y Cyd-bwyllgor yn nodi’r adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 03/07/26 |

## 87. Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol 2025-26

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Diben yr adroddiad oedd cyflwyno'r Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol heb ei archwilio am flwyddyn ariannol 2025-26 i'r Cyd-bwyllgor, a chael ei gymeradwyaeth i gyflwyno'r Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol ar gyfer Amlosgfa Llangrallo i Archwilio Cymru.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, bu'r aelodau yn trafod un neu ddau o faterion:<br><br>• Y swyddi gwag. Nododd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod y ddwy swydd wag wedi cael eu llenwi.<br>• Y rhesymau pam y cyhoeddwyd hysbysiad Rheoliad 10 i nodi nad oedd y Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol wedi cael ei gymeradwyo a'i ardystio gan y Cyd-bwyllgor erbyn 31 Mai. Nodwyd bod y prif reswm yn ymwneud ag amserlennu cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor. Cytunodd y Cyfrifydd – Cyllid i roi gwybodaeth ychwanegol i'r aelodau am hysbysiad Rheoliad 10 ac a oedd wedi bod yn angenrheidiol mewn blynyddoedd blaenorol.<br>• Y rhesymau dros y tanwariant o £139,000 ar y Safle, ac yn benodol y tanwariant o £102,000 ar Waith Cynnal a Chadw Cynlluniedig, Cylchol ac o ddydd i ddydd.<br>• Y rhesymau dros y gorwariant o £56,000 ar Eitemau i'w hailwerthu. Nododd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod hwn yn fater o amseru cyn belled ag yr oedd y cyfrifon yn y cwestiwn yn ymwneud â'r amser yr oedd angen iddynt brynu plinthiau gwenithfaen newydd ar gyfer y lleiniau claddu, fyddai wedyn yn cael eu hailwerthu i aelodau'r cyhoedd.<br>• Y paragraff oedd yn awgrymu y byddai'r gwarged cronedig yn destun adroddiad yn y dyfodol, yn ystyried ei ddefnyddio ar gyfer gwelliannau arfaethedig a'r ad-daliad posibl i'r Awdurdodau Partner. Dywedodd y Rheolwr a'r Cofrestrydd Gwasanaethau Profedigaeth y byddai angen cywiro'r adran hon gan fod y Memorandwm Cytundeb yn nodi bod rhaid i unrhyw warged aros fel cronfa i amddiffyn rhag digwyddiadau posibl yn Amlosgfa Llangrallo ac nad oedd i gael ei ad-dalu i Awdurdodau Partner.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Cymeradwyodd y Cyd-bwyllgor y Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol ar gyfer Amlosgfa Llangrallo am 2025-26 (Atodiad 1) a gofynnodd i Gadeirydd y Cyd-bwyllgor lofnodi'r Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol cyn ei |

| | |
|---|---|
| | gyflwyno i Archwilio Cymru, yn amodol ar gywiriad i'r adroddiad yn nodi na ellid ad-dalu'r gwarged i awdurdodau partner. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 03/07/26 |

## 88. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim<br><br>Diolchodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth i'r Cynghorydd G John am ei gefnogaeth fel Cadeirydd dros y flwyddyn ddiwethaf. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 03/07/26 |

I wylio rhagor o'r drafodaeth a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:54.